BookTrust
Getting children reading

# Adroddiad effaith

2024/25



Cliciwch ar y tabiau uchod i chwilio

# Cynnwys


## Cyflwyniad

- **Ynglŷn â BookTrust**
- **Ein dull gweithredu**

## Yr effaith a gawsom yn 2024/25

- Maes ffocws un: **Blynyddoedd cynnar**
- Maes ffocws dau: **Plant o gefndiroedd teuluoedd sy’n agored i niwed**
- Maes ffocws tri: **Ysgolion**
- **Uchafbwyntiau eraill o 2024/25**

## Diolchiadau a chyfeiriadau






Astudiaeth achos

## Darllen o’r eiliadau cynharaf

Mae Martha* yn byw gyda’i gŵr, y mae’n gofalu amdano’n llawn amser, a’i merched Anna (15), Emily (2) a Georgia (1). Mae arian yn dynn ac nid yw’n cael llawer o gymorth, ond mae darllen wedi dod yn uchafbwynt dyddiol yn eu cartref.

Er bod Martha wedi mwynhau llyfrau erioed, wnaeth hi ddim dechrau darllen gyda’i phlant hŷn, sydd bellach yn eu harddegau a’u hugeiniau, nes eu bod tua 18 mis oed. Newidiodd hynny pan dderbyniodd becyn Dechrau Da Babi i Emily. O dri mis oed, dechreuodd Emily edrych ar lyfrau. Dywedodd Martha wrthym:

> **Rydw i wastad wedi darllen gyda fy mhlant, ond fyddwn i erioed wedi meddwl am wneud amser bol gyda llyfr er enghraifft... Yn realistig, fyddwn i ddim wedi dechrau darllen gyda nhw, fwy na thebyg, tan eu bod nhw tua 18 mis oed. Fe wnes i roi cynnig arni’n gynharach ac fe weithiodd – oherwydd mae Emily wrth ei bodd â’i llyfrau nawr. Mae’n caru ei straeon. Yn fwy, fyddwn i’n dweud, na [ei brodyr a’i chwiorydd hŷn].**

Mae Martha o’r farn bod gan Emily gymaint o ddiddordeb mewn darllen am ei bod wedi dechrau mor gynnar.

> **Fe wnawn ni ddarllen y llyfr ac yna fe fydd hi’n mynd yn ôl drosto ac yn edrych ar y lluniau ac yn dweud wrtha’ i beth sydd wedi digwydd. Mae hi’n siarad mor dda, mae hi’n gallu cynnal sgwrs lawn gyda chi. Mae hi’n cofio’r stori ac mae hi’n darllen i’w chwaer fach, sydd yn hyfryd i weld.”**

I Martha, gwnaeth Dechrau Da droi darllen, a oedd yn weithgaredd achlysurol, yn arfer gwerthfawr, gan gefnogi datblygiad ei phlant a chreu eiliadau o gyswllt mewn cartref prysur.

> **Rwy’n credu ei bod hi’n mwynhau’r amser. Dim ond ni, dim byd i dynnu sylw. Wyddoch chi, mae’n rhoi cyfle i’ch ymennydd a phopeth [arall] dawelu ar ôl diwrnod prysur.”**

*Enwau wedi eu newid

# Cyflwyniad

Yn BookTrust, daeth un strategaeth i ben yn 2024/25, gan baratoi'r ffordd ar gyfer strategaeth 2025-2030: **Darllen ar gyfer dyfodol mwy disglair**. Mae'r bennod newydd hon yn nodi gweledigaeth pum mlynedd newydd sy'n adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud. Ein nod yw helpu mwy o blant a theuluoedd i fynd ati i ddarllen yn rheolaidd a phrofi'r holl fanteision sydd ynghlwm wrth hynny, trwy adeiladu a chryfhau cymorth darllen ar draws y rhwydweithiau sy'n amgylchynu plant a theuluoedd.

Mae plentyndod wedi newid yn llwyr dros y degawd diwethaf ac mae'n anoddach nag erioed i deuluoedd rannu llyfrau a straeon nawr, er bod llawer ohonynt yn gwybod ei fod yn allweddol i ddatblygiad eu plant a'u llwyddiant yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod llawer o blant yn colli allan ar gyfleoedd hanfodol i feithrin cariad gydol oes at ddarllen.

Dyna pam rydym yn partneru â Frank Cottrell-Boyce, Bardd Plant Waterstones 2024–26, ar y genhadaeth Hawliau Darllen. Galwad yw hon i arweinwyr ym mhob man weithredu i sicrhau bod pob plentyn yn gallu elwa ar ddarllen ar y cyd. Mae ein hadroddiad **Hawliau Darllen** yn nodi gweledigaeth gyffredin ar gyfer darllen yn y blynyddoedd cynnar a luniwyd gan arbenigwyr, arweinwyr a gweithwyr proffesiynol yn y sectorau gwleidyddol, addysg, llythrennedd, blynyddoedd cynnar, celfyddydau, iechyd a gofal cymdeithasol plant. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd.

**Mae 95% o deuluoedd** yn gwybod bod darllen gyda'u plentyn yn bwysig

**Ond dim ond 42% o blant 0–7 oed** sy'n cael stori amser gwely[1]

**Ond dim ond 25% o blant 11 oed** sy'n dweud eu bod yn caru darllen[2]

**"Mae gormod o blant yn colli allan ar fanteision darllen, sy'n newid bywydau. Rydyn ni, ochr yn ochr â llyfrgellwyr, gweithwyr gofal plant, ymwelwyr iechyd, athrawon ac eraill, yn gweithio i newid hyn. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'n holl bartneriaid, y byddwn yn parhau i weithio gyda nhw i wneud gwahaniaeth. Ac i'n cyllidwyr sy'n gwneud y cyfan yn bosibl."**

Diana Gerald, Cyd-Brif Swyddog Gweithredol BookTrust

**"Trwy ein partneriaethau dibynadwy, rydyn ni'n parhau i fod wedi ein hymwreiddio'n ddwfn yn y systemau cymorth ar gyfer teuluoedd blynyddoedd cynnar a phlant o gefndiroedd teuluoedd sy'n agored i niwed. Fel rhan o'r Flwyddyn Ddarllen genedlaethol, a thrwy ein rôl flaenllaw yn y blynyddoedd cynnar, rydyn ni'n ymrwymedig i ysgogi newid parhaol i blant, teuluoedd a phartneriaid."**

Annie Crombie, Cyd-Brif Swyddog Gweithredol BookTrust



Mae darllen yn helpu plant i wneud y canlynol:

**Goresgyn anghydraddoldebau cyn iddynt ddyfnhau**

**Meithrin perthynas â'r rhai sy'n rhoi gofal iddynt a phrofi gwell lles meddyliol**

**Cyflawni cerrig milltir datblygu cynnar a gwneud yn well yn yr ysgol**

**Datblygu empathi, creadigrwydd a dychymyg**




# Ynglŷn â BookTrust

BookTrust yw'r elusen ddarllen fwyaf i blant yn y DU. Bob blwyddyn rydym yn cyrraedd dros 1.4 miliwn o blant a theuluoedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn gweithio gyda phob awdurdod lleol, gan ddarparu rhaglenni darllen yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n gwneud gwahaniaeth mesuradwy i ymddygiadau darllen plant.


Mae ein gwaith wedi'i wreiddio yn y gred bod pob plentyn, yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel neu deuluoedd sy'n agored i niwed, yn haeddu'r cyfle i fwynhau darllen a'r holl fanteision gydol oes sydd ynghlwm wrtho.

Mae darllen yn rhywbeth i bob plentyn. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar blant a theuluoedd sydd angen ein cymorth fwyaf ac a fydd yn cael y budd mwyaf.

Gall darllen helpu plant i oresgyn anghydraddoldebau cyn iddynt ddyfnhau, gan roi'r dechrau cryfaf mewn bywyd iddynt. Dyna pam rydym yn dylunio'r cymorth rydym yn ei roi ac yn adeiladu ein rhwydweithiau o amgylch y teuluoedd hyn.

Mae ein gwaith wedi'i blethu'n ddwfn yn y system gymorth ehangach i blant a theuluoedd, gan sicrhau bod ein partneriaid yn gallu cynnwys cymorth darllen yn eu gwasanaethau. Gyda'n gilydd, rydym yn ymateb i anghenion lleol ac yn cyrraedd teuluoedd lle bynnag y maent, yn enwedig mewn cymunedau lle gall y cymorth a roddir gennym wneud y gwahaniaeth mwyaf.

## Ein model effaith





# Ein dull gweithredu

Rydym yn gweithio gyda thros 19,200 o leoliadau a thua 34,000 o bartneriaid unigol ym meysydd addysg, llyfrgelloedd, iechyd, gofal cymdeithasol plant a chymorth cynnar.

Mae'r dirwedd ar draws y sectorau hyn yn gynyddol gymhleth. Mae'r pwysau ar y gweithlu a phwysau cyllidol yn cynyddu. Ar yr un pryd, mae gwasanaethau yn wynebu mwyfwy o ofynion yn sgil maint a chymhlethdod anghenion plant a theuluoedd.

Gall ymgysylltu â chymunedau a theuluoedd fod yn heriol. Yn aml, mae llawer o flaenoriaethau yn cystadlu am amser y bobl rydym yn gweithio gyda nhw – y rhai ar incwm isel, teuluoedd maeth, teuluoedd sy'n gofalu am berthnasau, teuluoedd mabwysiadol. Mae lefelau ymddiriedaeth neu ymwneud â gwasanaethau yn amrywio, a bydd llawer o bobl wrthi'n mynd i'r afael â'u heriau eu hunain. Mae 89% o'n partneriaid blynyddoedd cynnar yn nodi bod pryderon ynghylch diffyg ymgysylltiad gan deuluoedd.[3]

Dyma pam mae ein dull gweithredu – adeiladu partneriaethau lleol hirdymor a llunio cymorth o amgylch anghenion partneriaid a theuluoedd yn barhaus – mor hanfodol i sicrhau effaith.


Mae plant a theuluoedd yn dangos llai o ddiddordeb mewn darllen. Mae angen ein cefnogaeth ar ein partneriaid nawr yn fwy nag erioed er mwyn helpu i wrthdroi'r duedd hon. Oherwydd, er na fydd darllen efallai yn datrys yr holl broblemau y mae teuluoedd yn eu hwynebu, mae'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac uniongyrchol yn ystod plentyndod a thu hwnt.

Mae ein rhaglenni i blant 0 i 14 oed yn darparu cymorth ar bob cam o deithiau plant trwy ddarllen.

**Mae BookTrust yn arweinydd mor bwysig i ni. Mae'r ymchwil rydych chi'n ei chynhyrchu yn llawn gwybodaeth ac rydych chi'n adnabod eich cynulleidfa darged. Gyda rhaglenni gwybodus yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n berthnasol i rieni yn ogystal â staff, a'r sefyllfaoedd rydyn ni'n ein cael ein hunain ynddyn nhw... Mae BookTrust yn ein hatgoffa ni o'r hyn rydyn ni'n ei wybod ac rydyn ni wedi anghofio amdano. Mae hefyd yn cefnogi arfer gorau ac yn helpu i rannu syniadau, sgiliau a gwybodaeth. Rwy'n credu ei fod yn anhygoel. Dydw i erioed wedi gweld hynny yn unman arall."**

Penny Ambrose, Rheolwr, Cychwyn Cadarn Beechmount, Belfast

# Ein rhaglenni




Mae ein rhaglenni yn darparu cyfuniad o lyfrau o ansawdd uchel, gwybodaeth ymarferol a gweithgareddau difyr i deuluoedd, ochr yn ochr ag adnoddau ac arweiniad sy'n helpu gweithwyr proffesiynol i ddarparu cymorth effeithiol i newid ymddygiad darllen.

Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw dod o hyd i'r llyfr cywir, y rhai y mae teuluoedd a phlant yn eu mwynhau fwyaf ac yn elwa fwyaf arnynt. Mae ein harbenigedd mewn llyfrau plant, o'r blynyddoedd cynnar i'r arddegau cynnar, yn ganolog i'r effaith y mae ein rhaglenni yn ei chael.

* Mae modelu yn broses lle mae partneriaid yn defnyddio ein llyfrau a'n hadnoddau i ddangos sut y gellir rhannu straeon mewn ffyrdd sy'n taro tant â rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn helpu teuluoedd i arsylwi ar y dulliau hyn, eu deall a'u hailadrodd, gan gyfoethogi'r profiad rhyngweithiol ac emosiynol o ddarllen gyda'i gilydd gartref.

Trwy gyfuno apêl y llyfrau hyn â'r gallu sydd gan ein partneriaid i gyfleu negeseuon cadarnhaol a darparu arweiniad ymarferol a modelu dan arweiniad*, rydym yn creu newid ystyrlon mewn ymddygiad. Mae'r elfennau hyn, a arweinir gan bartneriaid, yn hanfodol i lwyddiant ein rhaglenni, a dyna pam rydym yn cefnogi eu hymarfer yn barhaus gyda'n hadnoddau a'n gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r **gwaith ymchwil a gwerthuso** a wnawn yn sicrhau bod popeth rydym yn ei wneud yn ysgogi effaith ar gyfer plant a theuluoedd. Mae ein **Theori Newid**, a'n dealltwriaeth ddofn o fecanweithiau newid, yn helpu i'n tywys. Rydym yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael ac yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a phartneriaid i ddatblygu dulliau arloesol sy'n adeiladu ar gryfderau, yn lleihau rhwystrau ac yn cyd-fynd â realiti ymarfer a bywyd bob dydd y teulu.




# Yr effaith a gawsom yn 2024/25

**Yn 2024/25 aethom ati i:**

**1** **Ymwreiddio darllen ym mlynyddoedd cynnar plant mewn teuluoedd ar incwm isel**

**2** **Dod â mwynhad a sefydlogrwydd i blant sydd wedi'u mabwysiadu, sy'n cael gofal maeth neu y mae'r teulu yn gofalu amdanynt, trwy ddarllen a rhannu straeon**

**3** **Helpu ysgolion i feithrin cariad at ddarllen**



Maes ffocws un:

# Blynyddoedd cynnar

## Ymwreiddio darllen ym mlynyddoedd cynnar plant mewn teuluoedd ar incwm isel

Mae sicrhau bod teuluoedd yn darllen gyda'i gilydd o eiliadau cynharaf eu plentyn yn dod â llawenydd, cysur a chysylltiad. Mae **cannoedd o astudiaethau ymchwil** yn dangos bod darllen yn sbardun allweddol i ddatblygiad plant. Mae'n eu helpu i gyflawni lefel dda o ddatblygiad a bod yn barod ar gyfer yr ysgol, ac mae'n creu manteision sy'n para wrth iddynt ddod yn oedolyn. Mae gwaith blynyddoedd cynnar BookTrust yn cysylltu ar draws sectorau a lleoliadau er mwyn sicrhau bod cymorth darllen ar y cyd yn cael ei ymwreiddio ym mywyd y teulu. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o leoliadau a sefydliadau i gyflawni ein gwaith blynyddoedd cynnar gan gynnwys:

- Addysg blynyddoedd cynnar (bron i 5,700 o leoliadau)
- Iechyd blynyddoedd cynnar (tua dwy ran o dair o ymwelwyr iechyd)
- Llyfrgelloedd (dros 2,600 o leoliadau)
- Lleoliadau amlasiantaeth sy'n cefnogi teuluoedd (dros 1,000 o leoliadau a sefydliadau, gan gynnwys dros 180 o hybiau i deuluoedd)
- Elusennau a sefydliadau cymunedol (dros 170 o sefydliadau)

Mae **ein hymchwil** yn dangos bod teuluoedd sy'n dechrau rhannu llyfrau a straeon gyda'i gilydd yn gynnar yn fwy tebygol o ddatblygu arfer hirsefydledig o ddarllen ar y cyd.[4] Gall normau a phrofiadau rhieni a gofalwyr eu hunain o ddarllen lywio arferion darllen ar y cyd yn gynnar – gan naill ai eu hatgyfnerthu neu eu datgymell.[5] Pan fydd darllen ar y cyd yn cael ei esbonio neu ei fodelu gan rywun y mae teuluoedd yn ymddiried ynddo neu y gallant uniaethu ag ef, mae'n eu helpu i weld pa mor berthnasol a phwysig ydyw.[6] Mae partneriaid yn defnyddio ein pecynnau Dechrau Da a'n hadnoddau Amser Stori i gychwyn y sgyrsiau hyn a chreu eiliadau cofiadwy o ddathlu sy'n ennyn diddordeb teuluoedd mewn ffyrdd cadarnhaol. Mae'r llyfrau, y gweithgareddau a'r negeseuon cefnogol yn pwysleisio ffyrdd o greu agosatrwydd a rhyngweithio, ac yn helpu i feithrin hyder rhieni a gofalwyr i ddarllen gyda'u plentyn.

Trwy ddarparu llyfrau sy'n gwneud amser stori yn ddiddorol, naill ai mewn llyfrgelloedd neu gartref, rydym yn gallu annog rhieni i geisio darllen mwy gyda'u plentyn. Pan fyddant yn gweld yn uniongyrchol y ffordd y mae eu plentyn yn tyfu a'r diddordeb y mae'n ei ddangos, mae hyn yn dod yn gymhelliant pwerus i barhau i ddarllen.[7]

> **"Rydyn ni'n mwynhau ein partneriaeth gyda BookTrust yn fawr. Rydyn ni'n awyddus iawn i wella'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i deuluoedd ac i sicrhau bod pecynnau gwych BookTrust yn cyrraedd y teuluoedd iawn. Rydyn ni wedi datblygu'r ffordd rydyn ni'n rhoi'r pecynnau, ac mae gennym ni rai partneriaid allweddol nawr sy'n rhoi pecynnau i deuluoedd gyda digwyddiadau gwych sy'n modelu adrodd straeon ac yn defnyddio'r adnoddau i'w llawn effaith."**

Cydlynydd Dechrau Da, Llundain, Lloegr

**Yn 2024/25, gwnaethom gyrraedd dros hanner miliwn o deuluoedd – tua 90% o'r holl deuluoedd â babanod newydd – gyda Dechrau Da Babi.**

Dechrau Da Babi yw ein rhaglen ar gyfer teuluoedd â phlant 0 i 1 oed. Mae pob plentyn yn gymwys i gael pecyn llyfrau am ddim sydd wedi'i gynllunio i'w helpu i ddechrau darllen a rhannu straeon o'r eiliad gynharaf bosibl.

> **"Byddai ei thraed bach yn dechrau mynd a byddai'n chwifio ei dwylo – byddai hi'n cyffroi cymaint oherwydd roedd hi'n gwybod beth oedd yn dod ar y dudalen honno. Roedd gweld ei hymateb yn gwneud popeth yn werth chweil."**

Rhiant ar incwm isel yn Fermanagh, yn siarad am Dechrau Da Babi



**65%**
**o rieni/gofalwyr**
yn dweud mai'r llyfrau hyn oedd rhai o'r rhai cyntaf a gawsant ar gyfer eu plentyn

**78%**
**o rieni/gofalwyr**
yn dweud bod y pecyn wedi eu hysgogi i rannu llyfrau a straeon neu ddarllen mwy gyda'u babi[8]

**Mae'r effaith gynnar hon yn golygu bod y rhaglen yn gyflwyniad pwysig i fuddsoddiad gydol oes yn nyfodol eu plentyn.**

**94%**
**o bartneriaid**
yn dweud bod Dechrau Da Babi yn effeithiol wrth gefnogi teuluoedd i ddechrau darllen gyda'u plant cyn gynted â phosibl

**82%**
**o bartneriaid**
yn dweud bod Dechrau Da yn bwysig iawn i'w sefydliad[9]



**Astudiaeth achos**

## Mae'r Athro Sam Wass yn niwrowyddonydd gwybyddol datblygiadol sy'n rhedeg Sefydliad Gwyddoniaeth y Blynyddoedd Cynnar (ISEY) ym Mhrifysgol Dwyrain Llundain.

Mae ISEY yn cynhyrchu mewnwelediadau diddorol i'r ffordd y mae darllen ar y cyd yn helpu plant i ddysgu:

"Mae rhannu llyfrau wyneb yn wyneb yn ysgogi deialog, mae'n weithredol ac mae'n cael ei arwain gan blant, sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol. Pan rydyn ni'n rhannu llyfr, rydyn ni'n mynd ar gyflymder y plentyn ac yn mynd ar drywydd yr hyn y mae gan y plentyn ddiddordeb ynddo, gan ailadrodd geiriau a allai fod yn newydd a siarad am y pethau sydd o ddiddordeb iddo. Efallai y byddwn ni'n edrych ar lun am amser hir, neu'n mynd yn ôl a neidio ymlaen, gan ailddarllen rhai tudalennau neu'r llyfr cyfan. Mae ymennydd babanod yn prosesu gwybodaeth yn llawer arafach nag ymennydd oedolion, ac mae lluniau mewn llyfrau yn darlunio emosiynau sydd wedi'u "rhewi" mewn amser. Pan mae babi yn syllu ar lun, mae'n amsugno gwybodaeth ar y cyflymder y mae angen iddo ddysgu. Yn hanfodol, mae darllen ar y cyd yn cael ei arwain gan blant ar y cyflymder y mae ymennydd plant yn gweithio, lle nad yw cynnwys a gyflwynir ar sgrin yn gallu cael ei reoli mor hawdd gan y plentyn.

Mae'r ymennydd yn rhythmig: mae celloedd unigol yn siarad â'i gilydd trwy batrymau tanio cydgysylltiedig a elwir yn osgiladiadau. Mae iaith yn rhythmig hefyd, ac mae rhythmau lleferydd yn 'neidio ar gefn' rhythmau sy'n digwydd yn naturiol yn yr ymennydd, sy'n ein helpu ni i gynhyrchu a deall iaith. Mae rhythmau ymennydd plant yn wannach yn naturiol, ac mae tystiolaeth y gall iaith sydd wedi'i chyfeirio at blant, sydd â rhythmau gorliwiedig trwy nodweddion fel mesur a rhigwm, helpu i 'wthio' ymennydd plentyn tuag at weithgarwch rhythmig cryf, sefydlog. Mae hyn yn helpu'r ymennydd sy'n datblygu i nodi patrymau ac ystyr mewn iaith." – Yr Athro Sam Wass

**Mae Sam yn esbonio mwy am y wyddoniaeth ac yn rhoi taith i ni o amgylch ISEY – gallwch ddysgu am yr ymchwil a gwylio'r fideo yma**

**Gwnaethom gyrraedd 417,400 o blant 1 i 4 oed drwy ein rhaglenni Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol. Mae hyn yn cynnwys 313,100 o blant o deuluoedd ar incwm isel – traean o'r holl blant 1 i 4 oed sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel.**

**Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol** yw ein rhaglen ar gyfer teuluoedd â phlant 1 i 4 oed. Mae'r adnoddau a'r cymorth i bartneriaid, ochr yn ochr â phecynnau llyfrau a gweithgareddau i deuluoedd, wedi'u cynllunio i roi cymorth ychwanegol i deuluoedd ar incwm is, gan eu helpu i sicrhau bod darllen ar y cyd yn rhan reolaidd o'u bywydau.



**"Byddwn ni'n mynd trwy'r pecynnau Dechrau Da Oed Cyn Ysgol gyda rhieni... Maen nhw wedi gweld yr hyn y gallwn ni ei wneud trwy fodelu yn ystod ein sesiwn, eu tro nhw yw hi nawr. Mae angen i rieni ddeall bod yna wahanol ffyrdd o wneud hyn, ac y gallan nhw ei wneud yn eu ffordd eu hunain. Bydd rhieni yn dod yn ôl atom ni ac yn dweud: 'Fe wnaethon ni dynnu'r llun yma,' neu 'Fe wnaethon ni ddefnyddio'r pecyn i wneud model.' ... Rydyn ni'n annog y math hwn o chwarae gyda rhieni. Efallai mai dyma sut y byddan nhw'n ennyn diddordeb mewn rhannu straeon."**

Jyoti Johal, Rheolwr Meithrinfa, Meithrinfa Ddydd Beeches, Walsall

**76%**
**o rieni/gofalwyr**
wedi dysgu rhywbeth newydd am y gwahanol ffyrdd o ddarllen a rhannu straeon gyda'u plant

**71%**
**o rieni/gofalwyr**
yn credu'n gryfach yn y manteision y mae darllen yn eu cynnig i'w plentyn

**76%**
**o rieni/gofalwyr**
yn cytuno bod y pecyn wedi eu hannog i rannu straeon neu ddarllen mwy gyda'u plentyn[10]

**96%**
**o bartneriaid**
yn cytuno bod y rhaglen wedi eu helpu i ennyn diddordeb teuluoedd mewn darllen

**81%**
**o bartneriaid**
yn dweud bod Dechrau Da i Blant Bach/ Dechrau Da Oed Cyn Ysgol yn bwysig iawn i'w sefydliad14 [11]

**"Roedd yn teimlo fel pecyn cymorth defnyddiol i wneud amser darllen yn fwy diddorol ac ystyrlon. Fe wnes i fwynhau defnyddio'r awgrymiadau a'r deunyddiau gwahanol a gafodd eu rhoi, fel awgrymiadau ar gyfer darllen mynegiannol a syniadau ar sut i gynnwys fy mhlentyn yn y broses o adrodd straeon. Roedd yr adnoddau hyn yn gwneud sesiynau darllen yn fwy rhyngweithiol, ac roeddwn i'n gallu gweld fy mhlentyn yn dangos mwy o ddiddordeb mewn straeon."**

Rhiant ar incwm is, Bryste, yn siarad am Dechrau Da i Blant Bach

**Cymerodd 2,600 o lyfrgelloedd – tua 90% o'r holl lyfrgelloedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – ran yn Amser Stori BookTrust, gan gyrraedd tua 60,000 o blant 5 oed ac iau.**

Amser Stori BookTrust yw ein rhaglen genedlaethol i lyfrgelloedd. Mae'n rhoi llyfrau ac adnoddau i lyfrgelloedd er mwyn cefnogi teuluoedd â phlant rhwng 0 a 5 oed i feithrin arferion darllen cadarnhaol trwy brofiadau rhannu straeon difyr.

**"Yn sgil yr hyn wnaethon ni gydag Amser Stori BookTrust, mae gennym ni sesiynau amser stori wythnosol nawr yn Llyfrgell Ganolog Nottingham. Yn ystod gwyliau ysgol, mae amseroedd stori yn cynnwys sesiynau crefft hefyd. Gwnaeth Amser Stori BookTrust ein helpu ni i ddeall yr hyn y gallen ni ei wneud a'r hyn oedd yn gweithio'n dda. Rydyn ni hefyd wedi gweld teuluoedd a ddaeth draw i Amser Stori BookTrust yn dod i mewn i'r llyfrgell ac yn eistedd i lawr gyda'i gilydd ac yn adrodd straeon yn uchel ac yna mae grwpiau o blant yn casglu o'u cwmpas. Mae'n wych i'w weld."**

Hannah Clover, Uwch Gynghorydd Cwsmeriaid y Llyfrgell a David Beer, Cynghorydd Cwsmeriaid y Llyfrgell, Llyfrgell Ganolog Nottingham

**84%**
**o bartneriaid**
yn dweud bod Amser Stori BookTrust wedi helpu i gefnogi'r gwaith y mae eu llyfrgell yn ei wneud gyda phlant dan bump oed

**77%**
**o bartneriaid**
yn credu bod y rhaglen wedi helpu teuluoedd blynyddoedd cynnar i feithrin arferion darllen ar y cyd

**70%**
**o bartneriaid**
o'r farn bod y rhaglen yn effeithiol wrth gefnogi teuluoedd newydd, neu rai na fyddent yn defnyddio'r llyfrgell fel arfer, i gael profiad cadarnhaol[12]




**Yng Nghymru, gwnaeth 49,600 o blant oedran meithrin a derbyn gymryd rhan yn Pori Drwy Stori, ein rhaglen ddwyieithog.**

Fel rhan o'r rhaglen hon, mae pob plentyn dosbarth derbyn yn cael llyfr dwyieithog a gweithgareddau ategol i'w helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd, siarad a gwrando. Fel rhan o Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar, dosbarthwyd 30,100 o becynnau, a chymerodd dros 25,300 o blant ar draws mwy na 550 o leoliadau ran yn Amser Rhigwm Mawr Cymru.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i gefnogi teuluoedd â babanod newydd ac ehangu ein rhaglen Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol i gyrraedd hyd yn oed mwy o blant, yn enwedig y rhai o deuluoedd ar incwm isel. Byddwn hefyd yn cryfhau'r gefnogaeth rydym yn ei rhoi i'n partneriaid cyflawni blynyddoedd cynnar, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym am y prif ffactorau sy'n ysgogi effaith i helpu hyd yn oed mwy o blant i feithrin cariad at ddarllen.

**"Fel dosbarth meithrin, rydyn ni wrth ein boddau yn derbyn ein pecynnau Pori Drwy Stori bob blwyddyn, rydyn ni'n cynllunio llawer o weithgareddau o amgylch pob rhigwm ac mae'r plant yn edrych ymlaen yn fawr at fynd â'u ffolder eu hunain adref. Mae'r cynnig hwn wedi helpu rhieni i gymryd rhan, gyda phlant yn ymuno ac yn rhannu gyda'u teulu a'u ffrindiau."**

Partner Pori Drwy Stori, Sir Ddinbych




Maes ffocws dau:

# Plant o gefndiroedd teuluoedd sy'n agored i niwed

## Dod â mwynhad a sefydlogrwydd i blant sydd wedi'u mabwysiadu, sy'n cael gofal maeth neu y mae'r teulu yn gofalu amdanynt, trwy ddarllen a rhannu straeon.

Mae perthnasoedd cadarnhaol â'r sawl sy'n gofalu amdanynt yn chwarae rhan enfawr yn natblygiad plant o'r blynyddoedd cynnar ymlaen. Ond pan fydd plant yn agored i niwed, gall y perthnasoedd cefnogol hyn chwalu. Mae rhannu straeon yn ffordd syml ond pwerus o adeiladu a meithrin perthnasoedd. Trwy feithrin cariad at ddarllen, gallwn hefyd gefnogi lles plant, cryfhau eu hymdeimlad o ddiogelwch a hunaniaeth, a datgloi eu potensial fel dysgwyr.

Mae **ein hymchwil** yn dangos y gall darllen fod yn ffactor amddiffynnol pan fydd plant yn wynebu adfyd, ond rhaid i gymorth darllen gael ei gynllunio o amgylch y plentyn. Mae pwysleisio natur chwareus a mwynhad yn gwneud darllen yn fwy apelgar ac yn atgyfnerthu ymdeimlad o reolaeth a pherchnogaeth. Pan mae plant yn derbyn eu llyfrau a'u parseli eu hunain, maent yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch sut i'w defnyddio. Mae darparu llyfrau a pharseli yn rheolaidd nid yn unig yn cefnogi mynediad mwy cyfartal at adnoddau, mae hefyd yn ysgogi disgwyliad a chyffro, gan ddenu plant i ddarllen mewn ffordd sy'n teimlo'n bersonol ac yn rymusol.

> **Dechreuodd parseli llyfrau'r Clwb Blwch Llythyrau gyrraedd pan ddechreuon ni ofalu am Reggie*. Maen nhw'n cael eu hanfon yn rheolaidd mewn ffordd sy'n teimlo'n gyffrous iawn. Mae pob plentyn wrth eu bodd yn cael pethau yn y post. Mae'r ffaith eu bod nhw mewn cartref gwahanol, mewn cyfeiriad gwahanol, ond eu henw nhw sydd ar y parsel, mae'n helpu'r teimlad hwnnw o berthyn yn y cartref hwnnw. Mae'n eithaf arbennig i weld hynny. Mae'n anrheg hyfryd, ac yn ffordd o wneud darllen yn gyffrous."**

Gofalwr maeth, yn sôn am y Clwb Blwch Llythyrau
(*enw wedi newid)

> **Rwy'n caru'r gemau, yn enwedig pan fydda' i wedi diflasu. Bob bore pan mae rhywun yn curo ar y drws rydw i wastad yn gweiddi, 'Mae fy Mlwch Llythyrau yma!'"**

Plentyn, yn siarad am y Clwb Blwch Llythyrau

**Fe wnaethom gyrraedd dros 10,500 o blant sy'n cael gofal maeth neu blant o deuluoedd ar incwm isel gyda'r Clwb Blwch Llythyrau.**

Y Clwb Blwch Llythyrau (Saesneg yn unig) yw ein rhaglen hirsefydledig ar gyfer plant 3 i 13 oed sydd mewn gofal maeth neu o deuluoedd ar incwm isel. Mae'n helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i ddod â'r llawenydd sydd ynghlwm wrth ddarllen a rhifedd i mewn i fywydau'r plant hyn, gan helpu i fagu hyder ac ymgysylltiad trwy gyfres o lyfrau, adnoddau a gweithgareddau sydd wedi'u dewis yn ofalus.

**96%**
**o blant**
yn dweud eu bod yn hoffi neu'n caru'r Clwb Blwch Llythyrau

**73%**
**o blant**
yn dweud eu bod yn darllen mwy ar ôl derbyn y Clwb Blwch Llythyrau[13]




**Mae Amy Mercer o Brifysgol Plant Hull a Dwyrain Swydd Efrog yn esbonio sut y gall llyfrau a straeon feithrin ymdeimlad o ddiogelwch ymhlith plant – gwyliwch y fideo yma.**



**Gwnaethom weithio mewn partneriaeth â Kinship, yr elusen gofal gan berthynas fwyaf blaenllaw yng Nghymru a Lloegr, i rannu llyfrau a darparu gwybodaeth a chymorth (Saesneg yn unig) i dros 1,000 o unigolion sy'n gofalu am berthynas.**

Mae gwerth perthynol llyfrau yn ganolog i deuluoedd sy'n gofalu am berthynas. Trwy gyfres o sioeau teithiol a gweithdai, darparwyd llyfrau, rhestrau llyfrau ac arweiniad i helpu teuluoedd i ddefnyddio rhannu straeon i archwilio pynciau cymhleth fel hunaniaeth, emosiynau a cholled.

> **Mae [darllen gyda'n gilydd] yn rhoi'r anogaeth a'r hyder iddi allu siarad am bethau eraill sy'n digwydd yn yr ysgol hefyd. Oherwydd gallwn ni eistedd i lawr ac mae hi'n gwybod ei bod hi mewn lle diogel a gallwn ni siarad am unrhyw beth."**

Unigolyn sy'n gofalu am berthynas, Croydon

**Mae e' eisiau dod i eistedd gyda chi… doedd e' ddim eisiau ar y dechrau… Maen nhw'n ffordd o ddechrau sgwrs, ac mae hyd yn oed y propiau yn eich annog i dreulio mwy o amser gyda'ch gilydd. A siarad mwy â'ch gilydd, mae'n ymwneud â rhannu a chyfathrebu."**

Gofalwr maeth, yn siarad am Story Explorers



**Gwnaethom lansio Story Explorers, gan ddarparu dros 700 o danysgrifiadau i deuluoedd mabwysiadol, teuluoedd maeth a theuluoedd sy'n gofalu am berthynas.**

**Story Explorers** (Saesneg yn unig) yw ein rhaglen beilot o becynnau misol sy'n cynnwys llyfrau ac adnoddau i gefnogi profiadau pleserus o rannu straeon gartref i blant mewn teuluoedd mabwysiadol, teuluoedd maeth neu deuluoedd sy'n gofalu amdanynt.

Mae'r mewnwelediadau o'n gwerthusiad cyfnod cynnar yn galonogol. Mae cyflwyno'r pecynnau wedi sbarduno ymddygiadau darllen newydd, gan rymuso plant i ymgysylltu â llyfrau a straeon. Maent hefyd wedi helpu teuluoedd i feithrin arferion cyffredin o amgylch profiadau darllen chwareus, gan feithrin ymddiriedaeth, agosrwydd a diogelwch.


Astudiaeth achos

## Ein taith ddatblygu ar gyfer Story Explorers: canolbwyntio ar blant a theuluoedd

Dechreuodd y daith o gyd-ddylunio Story Explorers yn 2023 trwy ddeall anghenion plant, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Canfuom fod oedolion eisiau meithrin ymdeimlad o berthyn a diogelwch, a bod plant yn gwerthfawrogi chwarëusrwydd ac ymreolaeth.

Cafodd y rhaglen ei threialu yn 2024/25 a gwnaethom barhau i ddysgu a'i hailadrodd gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae lleisiau plant yn parhau i fod yn ganolog i hyn. Rydym yn cael ein hysbrydoli gan athroniaeth Reggio Emilia ac yn gweld plant fel cyfranogwyr gweithredol yn ein dysgu. Rydym yn cofleidio 'Cant o Ieithoedd Plant' ac yn defnyddio'r Dull Mosaig[14] i wrando ar leisiau plant ifanc trwy leferydd, arlunio, ysgrifennu a gweithredu.





**Dwi eisiau [darllen e'] eto ac eto"**

Yng ngham nesaf ein peilot, byddwn yn mireinio'r rhaglen ymhellach i wella'r effaith y mae'n ei chael. Byddwn yn cyd-ddylunio cymorth ychwanegol i weithwyr proffesiynol a gofalwyr, ac yn parhau i ddysgu gan bartneriaid er mwyn helpu i gynyddu ein cyrhaeddiad.

Mae BookTrust wedi bod yn cefnogi plant sydd â chysylltiad â'r system gofal cymdeithasol ers dros 20 mlynedd. Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn gweithio i gynyddu cydnabyddiaeth o'r rôl y gall darllen ei chwarae wrth gefnogi plant o gefndiroedd teuluoedd sy'n agored i niwed, fel bod modd ei gynnwys yn eu systemau cymorth. Wrth i ni gyrraedd nifer cynyddol o blant a thyfu ein rhwydwaith o eiriolwyr, arbenigwyr a phartneriaid, byddwn yn parhau i ddysgu gyda theuluoedd i ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnynt.



# Maes ffocws tri: Ysgolion

## Helpu ysgolion i feithrin cariad at ddarllen

Mae plant sy'n mwynhau darllen yn tueddu i ddarllen yn amlach, am gyfnod hirach a dod yn ddarllenwyr mwy medrus, ond mae plant yn cael llai a llai o fwynhad wrth ddarllen. Mae **ein hymchwil** yn dangos tuedd sy'n peri pryder – mae'r mwynhad a deimlir wrth ddarllen yn dechrau gostwng o tua 5 i 7 oed ac yn parhau i ostwng wrth i blant symud ymlaen drwy'r ysgol gynradd. Mae ysgolion yn chwarae rôl hanfodol wrth wrthdroi'r duedd hon trwy roi cyfleoedd i blant ddarllen a'u cefnogi a'u hysbrydoli i wneud hynny. Ac eto mae ysgolion yn wynebu nifer o heriau – mae 81% o athrawon cynradd yn nodi eu bod yn wynebu nifer o rwystrau wrth annog plant i ddarllen er mwynhad. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys diffyg amser i adael i blant ddarllen (36%) a mynediad cyfyngedig at lyfrau y mae plant yn eu mwynhau (18%).[15]

Er mwyn ysgogi plant oedran ysgol i ddarllen, mae'n hanfodol gwneud i ddarllen deimlo'n ystyrlon, trwy lyfrau a phrofiadau sy'n ennyn diddordeb yn bersonol ac yn gymdeithasol.[16] Yn y blynyddoedd cynnar, mae adeiladu cysylltiad cadarnhaol teuluoedd â darllen yn gosod y sylfaen ar gyfer mwynhad gydol oes. Wrth i blant dyfu, mae parhau i feithrin eu gallu i gysylltu â llyfrau ac i wneud eu dewisiadau eu hunain ynghylch beth i'w ddarllen yn eu helpu i ddatblygu arfer darllen cryf, hunangynhaliol.[17]

> **"Mae llai a llai o blant yn darllen er mwynhad, ond mae'r rhesymau yn gymhleth iawn. Un o'r pethau mwyaf: mynediad at destun, yn enwedig i gymunedau sy'n cael eu tanwasanaethu. Dyma lle mae ysgolion a meithrinfeydd a lleoliadau eraill yn bwysig iawn, oherwydd nhw yw'r lleoedd lle mae plant yn mynd i ddod ar draws testunau, ar draws llyfrau. Mae angen rhoi ffocws go iawn ar fynediad at destun o ansawdd uchel."**
>
> Matthew Courtney,
> Cyfarwyddwr Partneriaeth Dysgu Wandle

# Ysgolion cynradd

**Ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd, gwnaethom gyrraedd 47,800 o blant o 1,600 o ysgolion gyda'n rhaglen BookTrust Represents.**

**BookTrust Represents** (Saesneg yn unig) yw ein rhaglen o ymweliadau rhithwir gan awduron a chymorth i athrawon. Bob hanner tymor, rhoddwyd llyfrau am ddim i blant eu cadw mewn 60 o'r ysgolion hyn yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gan ddarparu cyfanswm o 18,000 o lyfrau trwy gydol y flwyddyn.

Trwy **deithiau awduron yng Ngogledd Iwerddon**, cafodd mwy na 1,800 o blant y cyfle i gwrdd ag awduron a darlunwyr enwog, cael eu hysbrydoli ganddynt a mynd â llyfr adref gyda nhw.



Astudiaeth achos

## Mae Serena Patel yn awdur llyfrau plant llwyddiannus a gymerodd ran yng nghyfres Digwyddiadau Awduron Rhithwir BookTrust Represents.

Mae hi'n sôn am ba mor bwysig yw hi bod plant yn gweld eu hunain ac eraill yn cael eu cynrychioli'n gadarnhaol, a'r rôl bwysig y gall llyfrau ei chwarae yma:

“Pan oeddwn i'n tyfu i fyny, roeddwn i'n teimlo fy mod i'n wahanol i bawb arall, yn yr ysgol a gartref. Roedd cymaint nad oeddwn i'n ei ddeall ac nad oeddwn i'n gallu ei reoli. Ond roedd llyfrau yn cynnig cysur, lle i ddianc, gobaith, antur, dirgelwch a hwyl. Roeddwn i'n chwilio am atebion, cysylltiad, eisiau teimlo bod pobl yn fy neall, yn fy ngweld rywsut, dwi'n meddwl. Ac fe wnes i gysylltu â chymeriadau mewn straeon, ond wnes i erioed ddarllen am brif gymeriad o Dde Asia, wnes i erioed gweld plentyn o Dde Asia ar glawr unrhyw un o'r llyfrau y gwnes i eu darllen. Weithiau rwy'n meddwl tybed sut y gallai hynny fod wedi teimlo a sut y gallai hynny fod wedi newid fy nghanfyddiad ohonof fi fy hun a'r byd roeddwn i'n tyfu i fyny ynddo. Rwy'n credu bod llyfrau yn gallu bod yn ddrych sy'n cynnig adlewyrchiad o fywyd plentyn, gan wneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu gweld a bod eu profiad yn cael ei ddilysu. Gall llyfrau hefyd fod yn ffenestr i fyd rhywun sy'n wahanol i'r darllenydd, gan greu cyfle i ddysgu a dangos empathi a dealltwriaeth. Mae'r ddau yn bwysig iawn.

Pan ofynnwyd i mi wneud ymweliad rhithwir gyda BookTrust, roeddwn i'n falch iawn o dderbyn. Ces i mo'r cyfle i gwrdd ag awdur go iawn fel plentyn, rwy'n gwybod y byddai hynny wedi golygu cymaint i mi. Roeddwn i'n gobeithio y byddai plant oedd yn gwylio yn gweld, os galla' i fod yn awdur cyhoeddedig, y gallan nhw fod yn un hefyd.”



**Fel rhan o'n hadnoddau 'Darllen a Lles' ar gyfer gwasanaethau, esboniodd yr awdur Michael Rosen sut y gall llyfrau feithrin empathi – gwyliwch y fideo yma.**

Anfonwyd ein **Canllaw Llyfrau Gwych** i bob ysgol gynradd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, gyda detholiad o argymhellion a ddewiswyd yn ofalus i helpu athrawon i ddod o hyd i lyfr y byddai pob plentyn yn edrych ymlaen at ei ddarllen. Gwnaethom barhau i rannu ein gwybodaeth am lyfrau sy'n ysbrydoli ac yn ennyn diddordeb trwy adolygiadau ac argymhellion llyfrau, gan rannu 365 o adolygiadau newydd yn ystod y flwyddyn.

Gwnaethom ehangu ein rhaglen gweminarau, gan gynnal pum sesiwn yn ystod y flwyddyn i rannu mewnwelediadau o waith ymchwil ac ymarfer gydag addysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys canfyddiadau a chymorth ymarferol o ddau adroddiad ymchwil BookTrust a dynnodd sylw at y **rôl hanfodol y mae athrawon yn ei chwarae wrth gefnogi cariad plant at ddarllen** a **rôl darllen wrth gefnogi lles plant.**

# Ysgolion uwchradd

**Gwnaethom lansio Bookspark* (Saesneg yn unig), rhaglen newydd sy'n cynnwys llyfrau ac adnoddau i helpu ysgolion i ddatblygu profiadau darllen cymdeithasol trwy sesiynau darllen ar y cyd. Mae'n rhoi hwb i fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 3, yn enwedig y rhai sydd â llai o ddiddordeb mewn darllen, ddechrau darllen neu barhau i wneud hynny.**

Bookbuzz yw ein rhaglen sy'n helpu ysgolion uwchradd i ennyn cyffro am ddarllen ymhlith disgyblion yn ystod y cyfnod pontio allweddol hwn. Mae Bookbuzz yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddewis a chadw llyfr y byddant yn ei garu, ac mae ysgolion yn derbyn adnoddau i gyflwyno sesiynau diddorol sy'n cefnogi dewisiadau myfyrwyr ac yn caniatáu iddynt deimlo perchenogaeth dros yr hyn y maent yn ei ddarllen.

**Yr her fwyaf rwy'n ei hwynebu yn fy rôl, fwy na thebyg, yw ceisio annog y rheini sy'n amharod i ddarllen i fynd i'r llyfrgell – eu cael nhw drwy'r drysau… Weithiau, gall Bookbuzz fod yn ffordd o dorri'r iâ gyda'r myfyrwyr hynny. Rwy'n credu mai'r ffordd fwyaf effeithiol o annog myfyrwyr i ddarllen yn yr ysgol uwchradd yw rhoi digon o ddewis iddyn nhw a gadael iddyn nhw leisio eu barn am yr hyn maen nhw eisiau ei ddarllen."**

Louise Henley, Rheolwr Llyfrgell, Academi Bluecoat Aspley, Nottingham

**242,700 o blant**

**ym Mlynyddoedd 7 ac 8**

yn cymryd rhan Bookbuzz

**98%**

**o athrawon a llyfrgellwyr**

yn cytuno bod Bookbuzz yn eu helpu i annog darllen er mwynhad yn eu hysgol[18]

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i gefnogi athrawon gyda'n hadnoddau, yn enwedig ein hadolygiadau a'n hargymhellion am lyfrau. Byddwn hefyd yn cynnig mwy o gymorth i blant ysgol gynradd ac uwchradd gyda'n rhaglenni darllen, gan gynnwys ehangu'r hyn rydym yn ei gynnig yng Nghyfnod Allweddol 2.

*Lansiwyd Bookspark yn wreiddiol o dan yr enw Spark Reading.



# Uchafbwyntiau eraill o 2024/25

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gydweithio ar draws sawl sector a gwlad i rannu dysgu, codi ymwybyddiaeth ac eirioli dros bwysigrwydd rhannu llyfrau a straeon o eiliadau cynharaf plentyndod.

## Ebrill 2024

Fel cynullwyr y Rhwydwaith Byd-eang ar gyfer Darllen yn y Blynyddoedd Cynnar – fforwm ar gyfer rhannu arfer gorau ac ymchwil ar draws y gymuned ryngwladol – gwnaethom gyfarfod â'n cymheiriaid rhyngwladol i drafod y ffyrdd y gellir alinio darllen ar y cyd yn gynnar â blaenoriaethau iechyd.

## Mehefin 2024

Daeth cyfnod Joseph Coelho fel Bardd Plant i ben. Yn ystod ei gyfnod yn y rôl, ymwelodd Joseph â thros 70 o lyfrgelloedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon fel rhan o'i daith fawr o amgylch llyfrgelloedd yn rhinwedd ei rôl fel y Bardd Plant. Penodwyd Bardd Plant newydd, sef Frank Cottrell-Boyce.

## Medi 2024

Cynhaliwyd yr ail Uwchgynhadledd Adrodd Straeon ar Fioamrywiaeth trwy ein partneriaeth RENEW â Phrifysgol Caerwysg a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Daeth yr uwchgynhadledd ag arbenigwyr o'r sectorau cyhoeddi, gwyddoniaeth, ysgolion a llyfrgelloedd ynghyd i greu straeon gweledol a naratifau newydd ar fioamrywiaeth ym maes llenyddiaeth plant.

## Hydref 2024

Lansiwyd ein briff ymchwil ar **rôl darllen i blant sy'n agored i niwed**.

## Tachwedd 2024

Cynhaliwyd derbyniad seneddol, lle daeth arweinwyr sectorau, seneddwyr, llunwyr polisi a gweithwyr proffesiynol ynghyd i drafod sut y gellir cynnwys rhannu straeon yn y cymorth a roddir i blant o gefndiroedd teuluoedd sy'n agored i niwed.

## Rhagfyr 2024

Sefydlwyd ein **Grŵp Goruchwylio Dysgu** i roi mewnbwn arbenigol ar ein dull ymchwilio a gwerthuso. Gwnaethom barhau i weithio gyda'n parthau dysgu yn Blackpool, Brent, Leeds, Caerlŷr, Hartlepool, Sandwell a Gwlad yr Haf, a dechreuwyd cynllunio ar gyfer ein cynlluniau peilot newydd yn seiliedig ar le.

## Ionawr 2025

Cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd Hawliau Darllen ar y cyd â Bardd Plant Waterstones, Frank Cottrell-Boyce. Daeth arbenigwyr a llunwyr polisi o awdurdodau lleol a'r sectorau iechyd, addysg, blynyddoedd cynnar, llythrennedd a chelfyddydau ynghyd i gymryd y camau cyntaf tuag at greu map ffordd i sicrhau bod pob plentyn yn gallu elwa ar fanteision darllen sy'n newid bywydau.

## Mawrth 2025

Lansiwyd ein hadroddiad ar **Reading Rights Report Hawliau Darllen**, a oedd yn galw am ddarpariaeth genedlaethol fel bod pob plentyn yn gallu cael gafael ar lyfrau ac yn gallu elwa ar ddarllen o'i flynyddoedd cynharaf.



Astudiaeth achos

## Araith agoriadol Bardd Plant Waterstones, Frank Cottrell-Boyce, yn yr Uwchgynhadledd Hawliau Darllen:

"Pan ddes i'n fardd plant, fe wnes i araith lle gwnes i sôn am y ffaith bod cynifer o'n plant yn cyrraedd yr ysgol heb fod unrhyw un wedi darllen iddyn nhw. Os dewch chi ar draws llyfr am y tro cyntaf pan fyddwch chi'n swatio gyda rhywun sy'n eich caru chi, neu sydd o leiaf yn gyfrifol amdanoch chi, yna rydych chi'n cael braint anweledig enfawr. Cwtsh fydd yn para am weddill eich bywyd.

Os dewch chi ar draws llyfr am y tro cyntaf yn yr ysgol, yno'n dawedog o'ch blaen chi, a gofynnir i chi wneud iddo siarad, yna rydych chi wedi cael eich gadael gydag anfantais enfawr, anorchfygol o bosibl – yn enwedig i'r 4.3 miliwn o blant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi. Nid yw'n iawn nac yn deg bod plant a allai elwa fwyaf, yn cael eu hamddifadu o fywyd sy'n gyfoethog mewn darllen, gyda'r holl fanteision sydd ynghlwm wrtho.

Mae'r anghydraddoldeb hwnnw'n amlwg yn mynegi ei hun mewn cyfleoedd bywyd a chyrhaeddiad addysgol is. Ond mae gen i deimlad bod rhywbeth arall – rhywbeth mwy sylfaenol – yn cael ei golli. Rhywbeth sy'n anoddach i'w fesur. Hapusrwydd. Mae pob plentyn angen y cyfle i ddechrau adeiladu'r hyn sy'n ei wneud yn hapus ynddo'i hun. Mae darllen ar y cyd – yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar – yn elfen hanfodol o hynny. Nid yw'n syndod bod ein plant yn ymddangos fel pe baent yn llai hapus ar hyn o bryd. Mae cyfres o argyfyngau wedi cael effaith fawr arnynt. Mae'r ffaith bod llai o ddiddordeb mewn darllen wedi chwarae ei ran yn hyn hefyd, yn fy marn i. Y newyddion da yw y gallwn ni unioni hynny. Gan ddechrau heddiw."

**Fel rhan o'n hymgyrch Hawliau Darllen, esboniodd Frank a'n partneriaid blynyddoedd cynnar sut y gall llyfrau adeiladu dyfodol mwy disglair – gwyliwch y fideo yma.**

# Diolchiadau

**Rydym yn ddiolchgar iawn i'n partneriaid am eu hymrwymiad a'u cydweithrediad parhaus. Diolch i:**

Ein Noddwr, Ei Mawrhydi y Frenhines, am ei nawdd a'i chefnogaeth barhaus i achos darllen, a'n Llywydd, Syr Michael Morpurgo, am ei gefnogaeth a'i ysbrydoliaeth hirsefydlog.

Ein rhwydwaith o Gydlynwyr Dechrau Da a phartneriaid cyflawni, sy'n gweithredu ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r partneriaid hyn yn cefnogi teuluoedd mewn llyfrgelloedd, sefydliadau cymunedol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, gwasanaethau ymwelwyr iechyd, awdurdodau lleol ac ysgolion, gan ein helpu i sicrhau effaith barhaol ar gyfer plant a theuluoedd.

Ein partneriaid ym maes cyhoeddi, gan gynnwys awduron a darlunwyr, y mae eu gwaith yn ganolog i'n cenhadaeth i ysbrydoli plant a theuluoedd ar eu teithiau darllen.

**Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth hael a dderbyniwn gan y rhai sy'n rhannu ein cenhadaeth i gael plant a theuluoedd i ddarllen er mwynhad:**

- Cyngor Celfyddydau Lloegr
- Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon
- Yr Adran Addysg – Lloegr
- Yr Adran Addysg – Gogledd Iwerddon
- Llywodraeth Cymru

**Hoffem hefyd ddiolch i rai o'r unigolion, cwmnïau, ymddiriedolaethau a sefydliadau niferus a gefnogodd ein gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys:**

- Sefydliad Bhim Ruia
- Bloomsbury Publishing
- Bookshop.org
- Browns Books
- Sefydliad Build-A-Bear
- Emerald Publishing Limited
- Enterprise Mobility
- Eric Hieltes Stiftelse
- Ymddiriedolaeth Elusennol Gapper
- Sefydliad Garfield Weston
- Ymddiriedolaeth George Cadbury
- Ymddiriedolaeth Elusennol Gigglemug
- Harris Poll
- Ymddiriedolaeth J&H Orlander
- Grŵp Gwella Busnes Lincoln – Llwybr Elmer
- Ymddiriedolaeth Marigold
- MarketingTwentyOne
- Mercury Engineering
- Ymddiriedolaeth Mintaka
- MM Wealth
- Sefydliad Mohn Westlake
- Ymddiriedolaeth Elusennol Mrs M A Lascelles
- Mushens Entertainment
- Pan Macmillan
- PDT Partners
- Pension Insurance Corporation
- Peters Ltd
- Gwasg Prifysgol Princeton
- Promote Your School
- Sefydliad RSM UK
- Gŵyl Lenyddol Sevenoaks
- Ymddiriedolaeth Elusennol Simon a Philip Cohen
- Slightly Foxed
- Sweet Cherry Publishing
- Sefydliad Elizabeth Frankland Moore a Star
- Sefydliad Eranda Rothschild
- The Folio Society
- Ymddiriedolaeth Haramead
- Elusen Syr Ralph Pendlebury 1880 ar gyfer Trigolion Mwyaf Anghenus Stockport
- Sefydliad Tanlaw
- Vision Architectural Glazing Installations Ltd
- Waterstones
- Abaty San Steffan
- Ymddiriedolaeth Wilmington

A phob un sy'n dymuno aros yn ddienw.

**"Pe byddai'r ddynes heb ddod draw a rhoi'r pethau Dechrau Da i mi pan anwyd fy mab, fyddwn i ddim wedi gwybod. A rydych chi wedi helpu i chwarae rhan fawr ym mywyd fy mab oherwydd os na fyddwn i wedi dangos y llyfrau iddo… fyddai e' ddim  wedi cael y profiad yna o oedran mor gynnar a bod lle mae e nawr. Felly, diolch yn fawr i chi!"**

Rhiant ar incwm isel,Swydd Hertford, yn sôn am Dechrau Da



# Nodiadau a chyfeiriadau

Mae'r holl ffigurau cyrhaeddiad yn yr adroddiad hwn wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf, neu i ddau ffigur arwyddocaol ar gyfer ffigurau dros filiwn neu lai na mil. Rydym wedi nodi lle nad oes gennym ffigurau manwl gywir ac mae niferoedd o ran cyrhaeddiad yn seiliedig ar amcangyfrifon sy'n defnyddio'r data gorau sydd ar gael.

Cafwyd ymatebion i'r arolwg gan ystod eang o bartneriaid a theuluoedd ond ni allwn fod yn sicr eu bod yn gwbl gynrychioliadol o'n rhwydwaith partneriaid na'r teuluoedd rydym yn eu cefnogi.


1. Arolwg Teuluoedd BookTrust (2022) Arolwg ar-lein o 2,148 o rieni/gofalwyr ar incwm isel sydd â phlant rhwng 0 a 7 oed yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

2. Arolwg Teuluoedd BookTrust (2022) Arolwg ar-lein o 7,871 o rieni/gofalwyr ar incwm isel sydd â phlant rhwng 0 a 17 oed yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

3. BookTrust (2025) Arolwg ar-lein o 668 o bartneriaid blynyddoedd cynnar BookTrust yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2025. **Arolwg Partneriaid BookTrust | BookTrust**.

4. BookTrust (2024) **Darllen yn y Blynyddoedd Cynnar: Pam mae dechrau darllen ar y cyd yn bwysig a rôl Dechrau Da Babi**. Leeds: BookTrust.

5. BookTrust (2025) **Sut mae darllen yn esblygu yn y blynyddoedd cynnar: mewnwelediadau hydredol gan deuluoedd**. Leeds: BookTrust.

6. Klass, P., Dreyer, B. P. and Mendelsohn, A. L. (2009) 'Reach Out and Read: Literacy promotion in pediatric primary care', Advances in Pediatrics, 56(1), pp. 11–27.

7. BookTrust (2025) **Sut mae darllen yn esblygu yn y blynyddoedd cynnar: mewnwelediadau hydredol gan deuluoedd**. Leeds: BookTrust.

8. Arolwg Dechrau Da Babi i rieni/gofalwyr (2025) Arolwg ar-lein o rieni/gofalwyr sy'n derbyn Dechrau Da Babi, a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar 623 o ymatebion.

9. BookTrust (2025) Arolwg ar-lein o bartneriaid blynyddoedd cynnar BookTrust yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2025 **Arolwg Partneriaid BookTrust | BookTrust**.

10. Arolwg Dechrau Da Babi/Dechrau Da Oed Cyn Ysgol i rieni/gofalwyr (2025) Arolwg ar-lein o 314 o deuluoedd sy'n derbyn Dechrau Da Babi/Dechrau Da Oed Cyn Ysgol, a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2024 a mis Medi 2025.

11. BookTrust (2025) Arolwg ar-lein o bartneriaid blynyddoedd cynnar BookTrust yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2025. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar 468 o bartneriaid Dechrau Da i Blant Bach/Dechrau Da Oed Cyn Ysgol. **Arolwg Partneriaid BookTrust | BookTrust**.

12. BookTrust (2025) **Canfyddiadau gwerthusiad Amser Stori BookTrust 2024-25**. Leeds: BookTrust.

13. BookTrust (2024) **Adroddiad Effaith Clwb y Blwch Llythyrau 2024**. Leeds: BookTrust.

14. Clark, A. a Moss, P. (2001). Listening to young children: the Mosaic approach. Llundain: Biwro Plant Cenedlaethol ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree.

15. BookTrust a Teacher Tapp (2024) Arolwg ar-lein o athrawon yn Lloegr a gynhaliwyd ym mis Awst 2024. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar 2,942 o athrawon ysgol gynradd. Canfyddiadau heb eu cyhoeddi.

16. McGeown, S., Errington, P., et al. (2025). The Future of Books and Reading. Labordy Llythrennedd, Prifysgol Caeredin, DU. Ar gael yn: **https://blogs.ed.ac.uk/literacylab**.

17. Cremin, Teresa a Hendry, Helen a Chamberlain, Liz a Hulston, Samantha. (2025) Reading and Writing for Pleasure: an Evidence-Informed Framework for Practice. DOI 10.4324/9781003532606. Abingdon: Routledge.

18. BookTrust (2024) Arolwg ar-lein o 253 o athrawon a llyfrgellwyr yn y DU sy'n cymryd rhan yn Bookbuzz. Canfyddiadau heb eu cyhoeddi.

# Rhagor o wybodaeth

Darganfyddwch fwy am ein dull gweithredu a'n datganiadau ariannol yn **Adroddiad Blynyddol 2024/25**.

Darganfyddwch fwy am ein gweledigaeth a'n huchelgais ar gyfer y dyfodol yn **Strategaeth 2025-2030: Darllen ar gyfer dyfodol mwy disglair**.

I drafod sut allwch chi weithio gyda BookTrust, cysylltwch â ni yn **queries@booktrust.org.uk**

BookTrust
Getting children reading


**Cysylltu â ni**
impact@booktrust.org.uk
booktrust.org.uk
Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol: @BookTrust



Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

MRS™ Awards 2023 Winner Activation of Insight



©2026 BookTrust. Rhif elusen: 313343